# Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

## Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Cofnodion y cyfarfod a gynhalwyd ar nôs Fercher, 10fed Mis Mai 2023, am 7:00yh
yn y Canolfan Cymunedol, Llanbrynmair.

**Presennol**
Cynghorwyr – E Lewis (Cadeirydd), F Cauley, I Edwards, R Ashton, E Davies, P Jones, B Jones, S Evans, D Jones a Cyng. G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau –** G Davies

**Cworum –** Cadarnhawyd mae 4 Cynghorwr sydd yn ffurfio cworum

**Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion yn codi –** Does yna ddim cofnodion

**Ethol swyddogion a cynrichiolwyr –** Daeth cyfnod E Lewis yn Gadeirydd i ben ar ôl dwy flynnydd yn y rôl. Rhoddodd E Lewis diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am eu cydweithrediad. Mynegodd F Cauley diolch iddo fo ar rhan y cynghowrwyr i gyd. Croesawyd E Davies (a fuodd yn Is-Cadeirydd) yn Gadeirydd Newydd am y ddwy flynnedd nesaf.
Ethol Is-Cadeirydd - Cynygwyd P Jones gan E Lewis. Roedd gan P Jones amheuon am sefyll ac awgrymodd i eraill cael siawns ar y rôl. Cynigwyd R Ashton neu B Jones fel Is-Cadeirydd gan P Jones. Cytynwyd y ddau i sefyll. Cafodd R Ashton ei eilio gan I Edwards a cafodd B Jones ei eilio gan E Davies. Enillodd R Ashton 6 pleidlais a B Jones 4 pleidlais. Fydd R Ashton yn Is-Cadeirydd am y ddwy flynedd nesaf
Mae diweddariad ar diddordebau'r Cynghorwyr a cynrichiolaeth y Cyngor ar pwyllgorau eraill wedi ei cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol

**Adroddiad blynyddol –** Cyflwynwyd draft o'r adroddiad blynyddol, trafodwyd rhai cywiriadau cyn ei cytuno. Rhoddwyd diweddariad ar rhestrau atodedig yn cynnwys diddordebau'r Cynghorwyr, y cynllyn hyfforddiant a'u manylion cyswllt

**Materion ariannol a cadarnhau'r mantolen ar gyfer yr 'Annual Return' –**

1. Mantolen terfynnol i 2022-23 – cytynwyd y ffigurau fel adlewyrchiad cywir o taliadau a derbyniadau yn ystod y flwyddyn. Fydd y ffigyrau yn cael ei defnyddio ar yr 'Annual Return'
2. Apwyntiad cyfrifwyr ar gyfer awdit allanol – cytynwyd i ddefnyddio cyfrifwyr Davies Lewis Baker yn Abersytwyth ond does dim dyfynbrys am ei wasanaethau ar gael eto
3. Cyflwynwyd diweddariad ar y polisi ariannol a cytynwyd i'w llofnodi yn y cyfarfod nesaf pan fydd y llofnodwyr i gyd yn bresennol
4. Taliadau a lwfansau i cynghorwyr. Dealltwyd fod gan cynghorwyr hawl i cael cyfraniad tuag at costau ond nid oeddent am ei dderbyn ar hyn o bryd

**Cyflog a contract y Clerc –** Cytynwyd i parhau â telerau'r contract a cyflog y Clerc

**Materion arall yn codi (i'w cynnwys ar cofnodion y cyfarfod arferol nesaf)**

1. Cyflwyniad gan Beryl Vaughan o Pwyllgor Cyllid Eisteddfod yr Urdd 2024 – Rhoddwyd crynodeb o anghenion ariannol yr Eistedofd ym Meifod. Mae angen codi £350,000 o cymunedau Sir Trefaldwyn, mae yna targed o £10,000 i godi yn Llanbrynmair ond pwysleiswyd yr egwyddor o 'gwnewch be fedrwch chi'. Fydd yna Noson Chwist ym mis

Mehefin a cyngerdd yn yr Hydref. Bydd rhaid trafod cyfraniad uniongyrchol gan y Cyngor yn y cyfarfod nesaf ar ôl i'r Clerc paratoi ffigyrau perthnasol

2. Diweddariad ar Treth y Maes Parcio – Mae'r Clerc wedi derbyn cyngor gan sawl cyfreithwr hyd yn hyn, a'r canlyniad ydy fod y mater yn un sydd angen arbennigwr. Gall trafodaethau rhagarweinol costio a ddeutu £2,000.00 cyn mynd ymhellach. Mae'r Clerc wedi cychwyn proses apêl efo'r VOA
3. Dŵr gwastraff – Rhoddodd G Mitchell diweddariad ar y sefyllfa gwael gyda ansawdd dŵr gwastraff yn Llanbrynmair. Fydd yna cyfle i gwrdd â cynrichiolwyr Dŵr Cymru ar safleoedd gweithfeydd prosesu carthffosiaeth
4. Station House, Talerddig – Rhoddodd G Mitchell diweddariad ar datblygiadau. Fydd yna cyfle i gwrdd â cynrichiolwyr gwasanaethau plant ar y safle rhywbryd yn fuan
5. Graffiti ar Pont Brics – Mae'r Clerc wedi adrodd i Network Rail ac mi fyddent yn glanhau'r paint cyn gynted a phosib
6. Cynllunio –
   23/0554/HH 'Installation of ground mounted solar array and associated works. Bryn Awel, Plas Llwyn Owen Bont Dolgadfan Llanbrynmair SY19 7BG '– cytynwyd i'w gefnogi
   23/0648/HH 'Erection of extensions and alterations to dwelling including erection of shed and polytunnel, formation of parking area, installation of sewage treatment plant to include change of use of land to form additional residential curtilage. Ty Newydd Llanbrynmair SY19 7EA' – cytynwyd i'w gefnogi
7. Talu cyflog y Clerc - cytynwyd

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

1. F Cauley – Twnel helyg yn y cae chwarae angen mwy o rhisgl coed ar lawr
2. F Cauley - Adeilad bach Plas Llwyn Owen ar gornel y ffordd i Pandy
3. F Cauley - Ochr y Ffordd wrth Tan-y-Bryn
4. F Cauley – Defnydd yr hysbysfyrdd
5. E Lewis – Cyflymder traffig heibio'r ysgol
6. D Jones – Cyflymder traffig ar y briffordd i mewn i'r pentref
7. P Jones – Ffens Glandŵr

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nôs Fercher, 7fed mis Mehefin 2023
Cynhelir y cyfarfod canlynol ar nôs Fercher, 6ed mis Gorffenaf 2023
Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol Cyffredin nesaf ar y 1af o mis Mai 2024

Sarah Reast
Clerc, Cyngor Cymuned Llanbrynmair
E-bost: machinations@btconnect.com Tel. 01650 521738
Ysgubor Crugnant
Pennant
Llanbrynmair
SY19 7BN